ARTS+MINDS

PUTTING SOUL AT THE HEART OF REGENERATION
RHOI ENAID WRTH GALON ADFYWIO

I'W RYDDHAU AR UNWAITH

6 Ebrill 2018

NOSON GALA AGORIADOL GŴYL FFILMIAU DOGFEN RYNGWLADOL CYMRU 2018 YN SINEMA NEUADD Y FARCHNAD, BRYNMAWR MEWN PARTNERIAETH AG *ARTS+MINDS*

Carai *Arts+Minds* (Cartrefi Cymuned Tai Calon, Head4Arts a Hamdden Aneurin) a Gŵyl Ffilmiau Dogfen Ryngwladol Cymru gyhoeddi achlysur lansio ffilm newydd, *The Tick and The Bomb*, wedi ei chyfarwyddo gan yr artist a'r gwneuthurydd ffilmiau, Matt White. Mae dangosiad cyntaf y ffilm yn ddiweddglo teilwng i broject adfywio tair-blynedd *Arts+Minds*, wrth i hwnnw ddod i ben.

Caiff y ffilm amserol hon, a wnaed yn lleol gydag actorion proffesiynol yn ymddangos ochr yn ochr â thrigolion cymuned Newtown yng Nglynebwy, ei dangosiad cyntaf am **7.00pm nos Fawrth 17eg Ebrill** yn **Sinema Neuadd y Farchnad, Brynmawr**.

Mae *The Tick and The Bomb*, a gomisiynwyd ar gyfer rhaglen CCC (Creu Cymunedau Cyfoes) Cyngor Celfyddydau Cymru, yn ffilm argraffiadol uchelgeisiol, sy'n defnyddio hanesion crafog y daeth yr artist ar eu traws yn ystod ei gyfnod preswyl dwy-flynedd yn gweithio gyda thrigolion Newtown a staff tai/cymunedau o Tai Calon.

Mae'r ffilm yn cynnwys dilyniannau wedi eu dramateiddio ynglŷn â sefyllfaoedd bob-dydd (y tic) sy'n cynnwys y posibilrwydd o drawsnewidiad neu newid dwys (y bom). Mae'r ffilm, a saethwyd yng nghyffiniau Newtown yn ystod y 6 mis diwethaf, yn dangos trigolion Newtown a staff Tai Calon yn cyfuno'n ddiwnïad â'r actorion proffesiynol.

Dywedodd Cyfarwyddydd Cymunedai a Thai Cymdeithas Tai Calon, Andrew Myatt: "*pleser llwyr oedd cefnogi Matt wrth iddo wneud y ffilm ddychmyglawn hon: aeth ati â'i holl galon i drwytho'i hun yn y gymuned lle mae gennym gryn dipyn o stoc tai, ac mae ei waith creadigol ymgysylltiol gyda phreswylwyr Newtown wedi esgor ar ymddiriedaeth anhygoel a arweiniodd at y profiad ffilm lleol a gwirioneddol gydweithredol hwn.*"

Ar ôl dangos *The Tick and The Bomb*, bydd cyflwyniad unigryw o'r gyfres ddogfen Gymreig ddadleuol o 1985, *The Dragon Has Two Tongues*, a gyflwynwyd gan Gwyn Alf Williams a Wynford Vaughan Thomas. Er ei bod yn ymdrin â chynrychioladau ehangach o Gymru, mae'r gyfres ddogfen bwysig a dylanwadol hon yn rhannu llawer o'r paradocsau o ran syniadau am hunaniaeth a chanfyddiadau pobl a ddatgelir gan ffilm White.

Dilynir y dangosiad gan banel Holi ac Ateb a gadeirir gan y gwneuthurydd ffilmiau, Michele Ryan, gyda Matt White, y cyfarwyddwr Colin Thomas, y blogiwr Nick Stradling, a'r curadur Chris Coppock.

Meddai cyfarwyddydd yr ŵyl, Dave Evans: "*Rydym wrth ein bodd i fod yn gweithio gyda sinema hynaf Cymru i gyflwyno cyfres ddogfen Gymreig eiconig ynghyd â ffilm fer newydd Matt White sy'n olwg graff ar ddiwylliant lleol. Mae'r anghydfod diweddar ynglŷn â hawliau atgynhyrchu ar gyfer* The Dragon Has Two Tongues *yn sicr o ennyn trafodaeth fywiog yn y sesiwn Holi ac Ateb.*"

RHAGOR O WYBODAETH AM WNEUTHURYDD *THE TICK AND THE BOMB*

The Tick and The Bomb yw gwaith diweddaraf Matt White mewn cyfres o sgyrsiau creadigol gyda chymuned Tai Calon sy'n troi o gwmpas y syniad o 'drawsnewid'. Nod y ffilm fer hon yw tanlinellu'r ffyrdd y gellir defnyddio prosesau'r dychymyg i fynd i'r afael â rhai o'r problemau sy'n gysylltiedig ag egwyddorion gwaelodol modelau adfywio trefol prif-ffrwd, yn ogystal ag archwilio'r berthynas feunyddiol rhwng preswylwyr Newtown a'r landlord cymdeithasol sydd i fod i ofalu amdanynt.

Mae cyfranogiad y gymuned a'r broses gydweithredol ynghlwm wrth wneud *The Tick and The Bomb* yn rhan sylfaenol bwysig o'r project hwn. Ynghyd ag ymyriadau creadigol blaenorol gan Matt White, mae'r ffilm yn ceisio herio a newid canfyddiadau ynglŷn â Newton, o'r tu fewn ac o'r tu allan.

Wedi'r dangosiad cyntaf yn Sinema Neuadd y Farchnad, bydd y ffilm yn mynd ar daith ehangach o gwmpas Cymru, yn cael ei dangos mewn orielau celf a'i chyflwyno mewn gwyliau ffilm rhyngwladol.

Artist/gwneuthurydd ffilmiau blaenllaw o Fryste yw Matt White, ac uwch-ddarlithydd mewn Ffotograffiaeth ym Mhrifysgol De Cymru, Caerdydd. Cydweithio gyda chymunedau lleol yw sail llawer o'i waith artistig, ac mae wedi gweithio'n llwyddiannus gydag amrywiaeth o grwpiau ac unigolion i greu gweithiau sy'n archwilio sut y mae gwrthdaro personol a moesol wedi ei leoli o fewn tirwedd gymdeithasol-wleidyddol ehangach.

AR Y CYD Â SINEMA NEUADD Y FARCHNAD, BRYNMAWR
A GŴYL FFILMIAU DOGFEN RYNGWLADOL CYMRU

WALES INTERNATIONAL DOCUMENTARY FESTIVAL

RHAGLEN CELFYDDYDAU AC ADFYWIO A PHARTNERIAETH STRATEGOL RHWNG CATREFI CYMUNED TAI CALON, HEAD4ARTS A HAMDDEN ANEURIN YW ARTS+MINDS, A GYLLIDIR GAN GYNGOR CELFYDDYDAU CYMRU TRWY EI RAGLEN CREU CYMUNEDAU CYFOES, 2015/18.

Am fanylion pellach, cysyllter â Chris Coppock, Pennaeth Creadigol, *Arts+Minds* ar (07929) 659 410 neu chris.coppock@taicalon.org

www.artsandmindscymru.com

Tai Calon Community Housing

TAI CALON
RHAGLEN I WELLA'R AMGYLCHEDD
AR Y CYD Â
CHONSORTIWM ARTS+MINDS